



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2010 Rhif 1671 (Cy.158)

2010 No. 1671 (W.158)

BWYD, CYMRU

FOOD, WALES

**Rheoliadau Wyau a Chywion
(Cymru) 2010**

**The Eggs and Chicks (Wales)
Regulations 2010**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn cymryd lle Rheoliadau Wyau a Chywion (Cymru) 2009 (O.S. 2009/793).

These Regulations revoke and replace the Eggs and Chicks (Wales) Regulations 2009 (S.I. 2009/793).

Fel y gwnâi Rheoliadau 2009, maent yn darparu ar gyfer gorfodi a gweithredu safonau marchnata EU uniongyrchol gymwys mewn perthynas ag wyau deor a chywion dofednod buarth fferm a safonau marchnata EU uniongyrchol gymwys mewn perthynas ag wyau yn eu plisgyn ar gyfer eu bwyta. Maent hefyd yn gwneud darpariaeth newydd ar gyfer gorfodi rheolaethau EU uniongyrchol gymwys ar gyfer seroteipiau Salmonella sydd ag arwyddocâd i iechyd y cyhoedd, mewn perthynas â marchnata a defnyddio wyau yn eu plisgyn ar gyfer eu bwyta gan bobl.

As in the 2009 Regulations, they make provision for the enforcement and execution of directly applicable EU marketing standards relating to eggs for hatching and farmyard poultry chicks and directly applicable EU marketing standards relating to eggs in shell for consumption. They also make new provision for the enforcement of directly applicable EU controls for Salmonella serotypes with public health significance in relation to the marketing and use of eggs in shell for human consumption.

O ran y safonau marchnata EU mewn perthynas ag wyau deor a chywion, mae'r Rheoliadau hyn—

As regards the EU marketing standards relating to eggs for hatching and chicks, these Regulations—

- (a) yn gwneud y methiant i gydymffurfio â darpariaethau Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007 sy'n sefydlu trefn gyffredin o farchnadoedd amaethyddol, ac yn gwneud darpariaethau penodol ynglŷn â rhai cynhyrchion amaethyddol (y Rheoliad Sengl CMO) (OJ Rhif L 299, 16.11.2007, t. 1) a Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 617/2008 (OJ Rhif L 168, 28.6.2008, t. 5), a grybwyllir yn Atodlen 1, yn dramgwydd (rheoliad 5);
- (b) yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â chofrestru sefydliadau bridio pedigri, sefydliadau bridio eraill a deorfeydd (rheoliad 6); ac
- (c) yn darparu eithriad rhag Erthygl 3(2) o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 617/2008 drwy ganiatáu i wyau deor gael eu marcio mewn dull

- (a) make the failure to comply with the provisions of Council Regulation (EC) No 1234/2007 establishing a common organisation of agricultural markets and on specific provisions for certain agricultural products (Single CMO Regulation) (OJ No L 299, 16.11.2007, p. 1) and Commission Regulation (EC) No 617/2008 (OJ No L 168, 28.6.2008, p. 5) mentioned in Schedule 1 an offence (regulation 5);
- (b) include provisions relating to the registration of pedigree breeding establishments, other breeding establishments and hatcheries (regulation 6); and
- (c) provide an exception from Article 3(2) of Commission Regulation (EC) No 617/2008 by allowing eggs for hatching to be marked in a

gwahanol i'r dull a grybwyllir yn y ddarpariaeth honno (rheoliad 7).

O ran y safonau marchnata EU sy'n gymwys yn uniongyrchol mewn perthynas ag wyau yn eu plisgyn ar gyfer eu bwyta, mae'r Rheoliadau hyn—

- (a) yn gwneud y methiant i gydymffurfio â darpariaethau'r Rheoliad Sengl CMO a Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 589/2008 (OJ Rhif L 163, 24.6.2008, t 6) a grybwyllir yn Atodlen 2 yn dramgwydd (rheoliad 9);
- (b) yn cynnwys darpariaethau ynglŷn ag awdurdodi canolfannau pecynnu i raddio wyau (rheoliad 10);
- (c) yn darparu eithriad rhag darpariaethau pwyntiau III(1) a (3) o Ran A o Atodiad XIV i'r Rheoliad Sengl CMO o ran marcio wyau ar gyfer eu bwyta (rheoliad 11);
- (ch) yn amrywio'r gofynion sylfaenol ar gyfer marchnata wyau fel wyau buarth drwy awdurdodi pori da byw ar libartau awyr agored ar gyfer ieir sy'n cynhyrchu'r cyfryw wyau (rheoliad 12);
- (d) yn darparu eithriad rhag darpariaethau Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 589/2008, drwy ganiatáu i wyau gael eu marchnata fel wyau buarth er nad yw'r holl ofynion a osodir yn y Rheoliad hwnnw ar gyfer wyau buarth wedi eu bodloni (rheoliad 13); ac
- (dd) yn darparu eithriad rhag darpariaethau Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 589/2008, drwy ganiatáu i wyau gael eu marchnata fel wyau sgubor er nad yw'r holl ofynion a osodir yn y Rheoliad hwnnw ar gyfer wyau sgubor wedi eu bodloni (rheoliad 14).

O ran y rheolaethau newydd mewn perthynas â Salmonella mae'r Rheoliadau'n cynnwys darpariaeth sy'n gwneud y methiant i gydymffurfio â darpariaethau Rheoliad (EC) Rhif 2160/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L 325, 12.12.2003, t. 1) ar reoli Salmonella a chyfyngau milheintiol penodedig eraill a gludir mewn bwyd, a grybwyllir yn Atodlen 3, yn dramgwydd (rheoliad 16).

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn darparu ar gyfer gorfodi'r Rheoliadau gan awdurdodau bwyd a Gweinidogion Cymru (rheoliad 17) ac yn gosod dyletswydd ar awdurdodau gorfodi i gynorthwyo a rhannu gwybodaeth â'i gilydd (rheoliad 18). Maent yn rhoi pwerau mynediad (rheoliad 19) a phwerau eraill (rheoliad 20), gan gynnwys pwerau i ymafael a dinistrio. Maent yn gwneud yn ofynnol dilyn gweithdrefnau penodol mewn unrhyw ddigwyddiad pan arferir y pwerau ymafael (rheoliad 21). Darperir hefyd ar gyfer dyroddi hysbysiadau cydymffurfio (rheoliad 22) ac ar gyfer apelau yn erbyn rhai

different manner from that mentioned in that provision (regulation 7).

As regards the directly applicable EU marketing standards relating to eggs in shell for consumption, these Regulations—

- (a) make the failure to comply with the provisions of the Single CMO Regulation and Commission Regulation (EC) No 589/2008 (OJ No L 163, 24.6.2008, p 6) mentioned in Schedule 2 an offence (regulation 9);
- (b) include provisions relating to the authorisation of packing centres to grade eggs (regulation 10);
- (c) provide an exception from the provisions of points III(1) and (3) of Part A of Annex XIV to the Single CMO Regulation, as regards the marking of eggs for consumption (regulation 11);
- (d) vary the minimum requirements for the marketing of eggs as free-range eggs by authorising livestock grazing on open-air runs for hens producing such eggs (regulation 12);
- (e) provide an exception from the provisions of Commission Regulation (EC) No 589/2008, by allowing eggs to be marketed as free-range eggs although not all of the requirements laid down in that Regulation for free-range eggs are met (regulation 13); and
- (f) provide an exception from the provisions of Commission Regulation (EC) No 589/2008, by allowing eggs to be marketed as barn eggs although not all of the requirements laid down in that Regulation for barn eggs are met (regulation 14).

As regards the new Salmonella related controls, the Regulations include a provision making the failure to comply with the provisions of Regulation (EC) No 2160/2003 (OJ No L 325, 12.12.2003, p. 1) of the European Parliament and of the Council on the control of Salmonella and other specified food-borne zoonotic agents mentioned in Schedule 3 an offence (regulation 16).

These Regulations also provide for food authorities and the Welsh Ministers to enforce the Regulations (regulation 17) and impose a duty on enforcement authorities to give assistance and information to each other (regulation 18). They confer powers of entry (regulation 19) and other powers (regulation 20), including seizure and destruction powers. They require certain procedures to be followed in the event of any exercise of the seizure powers (regulation 21). They provide for the issue of compliance notices (regulation 22) and provide for appeals against certain decisions of the Welsh Ministers and enforcement authorities

penderfyniadau gan Weinidogion Cymru ac awdurdodau gorfodi (rheoliad 23). Maent yn galluogi Gweinidogion Cymru i osod gofynion ychwanegol o ran cadw cofnodion (rheoliad 24). Maent yn darparu ar gyfer cyhoeddi achosion pan ddinistriwyd eitemau yr ymafaelwyd ynddynt, ac achosion pan roddwyd hysbysiadau cydymffurfio (rheoliad 25).

Maent yn gwneud rhwystro yn dramgwydd (rheoliad 26) ac yn darparu ar gyfer cosbi tramgwyddau troseddol (rheoliad 27). Maent yn cynnwys darpariaethau sy'n estyn y cyfnod pan ellir dwyn erlyniad (rheoliad 28) a darpariaethau sy'n ymwneud â thramgwyddau a gyflawnir gan gorff corfforaethol, corff anghorfforedig neu bartneriaeth (rheoliad 29).

Maent yn creu cynllun hefyd ar gyfer dyroddi a thalu hysbysiadau cosb am dramgwydd o dan reoliad 16 ac yn fwyaf penodol ddarpariaethau ynglŷn â rhoi hysbysiad cosb (rheoliad 30); cynnwys hysbysiad o'r fath (rheoliad 31); swm y gosb sy'n daladwy o dan hysbysiad cosb (rheoliad 32 ac Atodlen 4); y cyfnod a ganiateir ar gyfer talu cosb ac effaith talu cosb (rheoliad 33); y dull a ddefnyddir i dalu cosb (rheoliad 34); dyroddi tystysgrif ynglŷn â thalu neu beidio â thalu cosb (rheoliad 35); talu cosbau i Gronfa Gyfunol Cymru (rheoliad 36); a thynnu hysbysiad cosb yn ôl (rheoliad 37).

Maent yn cynnwys darpariaethau hefyd ynglŷn â rhoi hysbysiadau o dan y Rheoliadau (rheoliad 38). Cymhwysir amryw o ddarpariaethau Deddf Diogelwch Bwyd 1990 (1990 p. 16) i'r Rheoliadau (rheoliad 39) a gwneir darpariaeth drosiannol (rheoliad 40).

Mae asesiad effaith rheoleiddiol llawn o effaith y Rheoliadau hyn ar gostau busnes a'r sector gwirfoddol ar gael yn www.cymru.gov.uk neu o Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Adeiladau'r Llywodraeth, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ. Atodir ef hefyd i'r Memorandwm Esboniadol sydd ar gael, ynghyd â'r Rheoliadau hyn, ar wefan OPSI (www.opsi.gov.uk).

(regulation 23). They enable the Welsh Ministers to impose additional record-keeping requirements (regulation 24). They provide for the publication of cases where seized items have been destroyed and cases in which Compliance notices have been given (regulation 25).

They make obstruction an offence (regulation 26) and provide for the punishment of criminal offences (regulation 27). They contain provisions extending the period during which a prosecution may be brought (regulation 28) and relating to offences committed by a body corporate, unincorporated body or partnership (regulation 29).

They also create a scheme for the issuing and payment of penalty notices for an offence under regulation 16, more particularly provisions relating to the giving of a penalty notice (regulation 30); the content of such a notice (regulation 31); the amount of a penalty payable under a penalty notice (regulation 32 and Schedule 4); the period in which a penalty must be paid and the effect of paying a penalty (regulation 33); the method of paying a penalty (regulation 34); the issue of a certificate relating to the payment or non-payment of a penalty (regulation 35); the payment of penalties into the Welsh Consolidated Fund (regulation 36); and the withdrawal of a penalty notice (regulation 37).

They also contain provisions relating to the giving of notices under the Regulations (regulation 38). They apply various provisions of the Food Safety Act 1990 (1990 c. 16) to the Regulations (regulation 39) and make a transitional provision (regulation 40).

A full regulatory impact assessment of the effect that these Regulations will have on the costs of business and the voluntary sector is available at www.wales.gov.uk or from Office of the Chief Veterinary Officer, Welsh Assembly Government, Government Buildings, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

2010 Rhif 1671 (Cy.158)

2010 No. 1671 (W.158)

BWYD, CYMRU

FOOD, WALES

**Rheoliadau Wyau a Chywion
(Cymru) 2010**

**The Eggs and Chicks (Wales)
Regulations 2010**

Gwnaed 22 Mehefin 2010

Made 22 June 2010

*Gosodwyd gerbron Cynulliad
Cenedlaethol Cymru* 25 Mehefin 2010

*Laid before the National
Assembly for Wales* 25 June 2010

Yn dod i rym 16 Gorffennaf 2010

Coming into force 16 July 2010

CYNNWYS

CONTENTS

RHAN 1

PART 1

Cyffredinol

General

1. Enwi, cychwyn a chymhwyso
2. Dirymu
3. Dehongli

1. Title, commencement and application
2. Revocation
3. Interpretation

RHAN 2

PART 2

Wyau deor a chywion

Eggs for hatching and chicks

4. Cymhwyso'r Rhan hon
5. Cydymffurfio â darpariaethau Cymunedol
6. Cofrestru sefydliadau bridio pedigri, sefydliadau bridio a deorfeydd
7. Rhanddirymu mewn perthynas â marcio wyau deor

4. Application of this Part
5. Compliance with Community provisions
6. Registration of pedigree breeding establishments, breeding establishments and hatcheries
7. Derogation relating to the marking of eggs for hatching

RHAN 3

PART 3

Wyau yn eu plisgyn ar gyfer eu bwyta: gofynion cyffredinol

Eggs in shell for consumption: general requirements

8. Cymhwyso'r Rhan hon
9. Cydymffurfio â darpariaethau Cymunedol
10. Awdurdodi canolfannau pecynnu i raddio wyau
11. Rhanddirymiaidau sy'n ymwneud â marcio wyau

8. Application of this Part
9. Compliance with Community provisions
10. Authorisation of packing centres to grade eggs
11. Derogations relating to the marking of eggs

12. Pori da byw ar libartau awyr agored
13. Rhanddirymiadau sy'n ymwneud ag wyau buarth
14. Rhanddirymiadau sy'n ymwneud ag wyau sguwor

RHAN 4

Wyau yn eu plisgyn ar gyfer eu bwyta: gofynion mewn perthynas â rheoli Salmonella

15. Cymhwyso'r Rhan hon
16. Cydymffurfio â darpariaethau Cymunedol

RHAN 5

Amrywiol Ddarpariaethau

17. Gorfodi
18. Dyletswydd i roi cymorth a darparu gwybodaeth
19. Pwerau mynediad
20. Pwerau swyddog awdurdodedig
21. Gweithdrefn ar gyfer ymafael
22. Hysbysiadau cydymffurfio
23. Apelau
24. Gofynion cadw cofnodion
25. Cyhoeddi gwybodaeth ynghylch gorfodi
26. Rhwystro
27. Dirwy
28. Estyn y cyfnod ar gyfer dwyn erlyniad
29. Tramgwyddau gan gyrrff corfforaethol etc.
30. Rhoi hysbysiad cosb am dramgwydd cosb
31. Cynnwys yr hysbysiad cosb
32. Swm y gosb
33. Cyfyngiad ar ddwyn achos am dramgwydd cosb
34. Talu'r gosb
35. Tystysgrif o dalu neu beidio â thalu cosb
36. Derbyniadau cosbau
37. Tynnu hysbysiad cosb yn ôl
38. Rhoi hysbysiadau
39. Cymhwyso amrywiol ddarpariaethau o'r Ddeddf
40. Darpariaeth drosiannol

12. Livestock grazing on open-air runs
13. Derogation relating to free-range eggs
14. Derogation relating to barn eggs

PART 4

Eggs in shell for consumption: salmonella control related requirements

15. Application of this Part
16. Compliance with Community provisions

PART 5

Miscellaneous provisions

17. Enforcement
18. Duty to give assistance and provide information
19. Powers of entry
20. Powers of an authorised officer
21. Procedure on seizure
22. Compliance notices
23. Appeals
24. Record-keeping requirements
25. Publication of enforcement information
26. Obstruction
27. Fine
28. Extended period for bringing prosecutions
29. Offences by bodies corporate etc.
30. Giving of penalty notice for penalty offence
31. Contents of penalty notice
32. Amount of penalty
33. Restriction on proceedings for penalty offence
34. Payment of penalty
35. Certificate of payment or non-payment of a penalty
36. Penalty receipts
37. Withdrawal of penalty notice
38. Giving of notices
39. Application of various provisions of the Act
40. Transitional provision

ATODLEN 1	–	DARPARIAETHAU CYMUNEDOL YNGLŶN AG WYAU DEOR A CHYWION, Y MAE METHU Â CHYDYMFFURFIO Â HWY YN DRAMGWYDD	SCHEDULE 1	–	COMMUNITY PROVISIONS RELATING TO EGGS FOR HATCHING AND CHICKS CONTRAVENTION OF WHICH IS AN OFFENCE
RHAN 1	–	DARPARIAETHAU'R RHEOLIAD SENGL CMO	PART 1	–	PROVISIONS OF THE SINGLE CMO REGULATION
RHAN 2	–	DARPARIAETHAU RHEOLIAD Y COMISIWN (EC) RHIF 617/2008	PART 2	–	PROVISIONS OF COMMISSION REGULATION (EC) NO 617/2008
ATODLEN 2	–	DARPARIAETHAU CYMUNEDOL CYFFREDINOL YNGLŶN AG WYAU YN EU PLISGYN AR GYFER EU BWYTA, Y MAE METHU Â CHYDYMFFURFIO Â HWY YN DRAMGWYDD	SCHEDULE 2	–	GENERAL COMMUNITY PROVISIONS RELATING TO EGGS IN SHELL FOR CONSUMPTION CONTRAVENTION OF WHICH IS AN OFFENCE
RHAN 1	–	DARPARIAETHAU'R RHEOLIAD SENGL CMO	PART 1	–	PROVISIONS OF THE SINGLE CMO REGULATION
RHAN 2	–	DARPARIAETHAU RHEOLIAD Y COMISIWN (EC) RHIF 589/2008	PART 2	–	PROVISIONS OF COMMISSION REGULATION (EC) NO 589/2008
ATODLEN 3	–	RHEOLAETHAU CYMUNEDOL YNGLŶN AG WYAU YN EU PLISGYN AR GYFER EU BWYTA, MEWN PERTHYNAS Â SALMONELLA, Y MAE METHU Â CHYDYMFFURFIO Â HWY YN DRAMGWYDD	SCHEDULE 3	–	COMMUNITY SALMONELLA RELATED CONTROLS ON EGGS IN SHELL FOR CONSUMPTION CONTRAVENTION OF WHICH IS AN OFFENCE
ATODLEN 4	–	FFACTORAU SYDD I'W CYMRYD I YSTYRIAETH WRTH BENDERFYNU SWM COSB	SCHEDULE 4	–	FACTORS TO BE TAKEN INTO ACCOUNT IN DETERMINING THE AMOUNT OF A PENALTY
RHAN 1	–	FFACTORAU GWAETHYGOL	PART 1	–	Aggravating factors
RHAN 2	–	FFACTORAU LLINIAROL	PART 2	–	Mitigating factors

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi(1) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(2) o ran polisi amaethyddol cyffredin yr Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer diben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru yn hwylus i unrhyw gyfeiriad at y Rheoliadau canlynol gael ei ddehongli fel cyfeiriad at y Rheoliadau hynny fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd—

- (a) Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007(3) sy'n sefydlu trefniadaeth gyffredin o farchnadoedd amaethyddol ac sy'n gosod darpariaethau penodol ar gyfer cynhyrchion amaethyddol penodol (y Rheoliad Sengl CMO);
- (b) Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 589/2008(4) sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1234/2007 o ran safonau marchnata ar gyfer wyau; ac
- (c) Rheoliad y Comisiwn (EC) 617/2008(5) sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1234/2007 o ran safonau marchnata ar gyfer wyau deor a chywion dofednod buarth fferm.

I'r graddau y gwneir y Rheoliadau hyn wrth arfer pwerau o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(6), mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi sylw i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd fel sy'n ofynnol gan adran 48(4A)(7) o'r Ddeddf honno.

Ymgynghorwyd yn agored a thryloyw â'r cyhoedd wrth baratoi'r Rheoliadau canlynol yn unol â gofynion Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor(8) sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd.

The Welsh Ministers are designated(1) for the purposes of section 2(2) of the European Communities Act 1972(2) in relation to the common agricultural policy of the European Union.

These Regulations make provision for a purpose mentioned in section 2(2) of the European Communities Act 1972, and it appears to the Welsh Ministers that it is expedient for any reference to the following Regulations to be construed as a reference to those Regulations as amended from time to time—

- (a) Council Regulation (EC) No 1234/2007(3) establishing a common organisation of agricultural markets and on specific provisions for certain agricultural products (Single CMO Regulation);
- (b) Commission Regulation (EC) No 589/2008(4) laying down detailed rules for implementing Regulation (EC) No 1234/2007 as regards marketing standards for eggs; and
- (c) Commission Regulation (EC) No 617/2008(5) laying down detailed rules for implementing Regulation (EC) No 1234/2007 as regards marketing standards for eggs for hatching and farmyard poultry chicks.

Insofar as these Regulations are made in exercise of powers under the Food Safety Act 1990(6), the Welsh Ministers have had regard to relevant advice given by the Food Standards Agency as required by section 48(4A)(7) of that Act.

There has been open and transparent public consultation during the preparation of the following Regulations as required by Article 9 of Regulation (EC) No 178/2002 of the European Parliament and of the Council(8) laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety.

(1) O.S. 2005/2766. Yn rhinwedd adrannau 59 a 162 a pharagraffau 28 a 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), mae swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y dynodiad hwn bellach wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru.

(2) 1972 p.68.

(3) OJ Rhif L 299, 16.11.2007, t. 1, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1140/2009 (OJ Rhif L 312, 27.11.2009, t. 4).

(4) OJ Rhif L 163, 24.6.2008, t. 6, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 598/2008 (OJ Rhif L 164, 25.6.2008, t. 14).

(5) OJ Rhif L 168, 28.6.2008, t. 5.

(6) 1990 p. 16.

(7) Mewnosodwyd adran 48(4A) gan baragraffau 7 ac 21 o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (p. 28).

(8) OJ Rhif L 31, 1.2.2002, t. 1, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 202/2008 (OJ Rhif L 60, 5.3.2008, t. 17).

(1) S.I. 2005/2766. By virtue of sections 59 and 162 and paragraphs 28 and 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32), functions conferred upon the National Assembly for Wales by this designation are now vested in the Welsh Ministers.

(2) 1972 c. 68.

(3) OJ No L 299, 16.11.2007, p. 1, last amended by Commission Regulation (EC) No 1140/2009 (OJ No L 312, 27.11.2009, p. 4).

(4) OJ No L 163, 24.6.2008, p. 6, last amended by Commission Regulation (EC) No 598/2008 (OJ No L 164, 25.6.2008, p. 14).

(5) OJ No L 168, 28.6.2008, p. 5.

(6) 1990 c. 16.

(7) Section 48(4A) was inserted by paragraphs 7 and 21 of Schedule 5 to the Food Standards Act 1999 (c. 28).

(8) OJ No L 31, 1.2.2002, p. 1, last amended by Commission Regulation (EC) No 202/2008 (OJ No L 60, 5.3.2008, p. 17).

Yn unol â hyn, mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan—

- (a) adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 a pharagraff 1A(1) o Atodlen 2 i'r Ddeddf honno; a
- (b) adrannau 6(4)(2), 16(1)(3), 17(4), 26(5) a 48(1)(6) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990;
- (c) ac a freiniwyd bellach yng Ngweinidogion Cymru(7).

RHAN 1

Cyffredinol

Enwi, cychwyn a chymhwys

1.–(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Wyau a Chywion (Cymru) 2010 a deuant i rym ar 16 Gorffennaf 2010.

(2) Maent yn gymwys o ran Cymru.

Dirymu

2. Dirymir Rheoliadau Wyau a Chywion (Cymru) 2009(8).

Accordingly, the Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred by—

- (a) section 2(2) of, and paragraph 1A(1) of Schedule 2 to, the European Communities Act 1972; and
- (b) sections 6(4)(2), 16(1)(3), 17(4), 26(5) and 48(1)(6) of the Food Safety Act 1990 and now vested in the Welsh Ministers(7).

PART 1

General

Title, commencement and application

1.–(1) The title of these Regulations is the Eggs and Chicks (Wales) Regulations 2010 and they come into force on 16 July 2010.

(2) They apply in relation to Wales.

Revocation

2. The Eggs and Chicks (Wales) Regulations 2009(8) Regulations are revoked.

(1) Mewnosodwyd paragraff 1A o Atodlen 2 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51).

(2) Diwygiwyd adran 6(4) gan baragraff 6 o Atodlen 9 i Ddeddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan 1994 (p. 40), paragraffau 7, 10(1) a (3) o Atodlen 5, ac Atodlen 6 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999, ac Atodlen 2 i O.S. 2002/794.

(3) Diwygiwyd adran 16(1) gan baragraffau 7 ac 8 o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999.

(4) Diwygiwyd adran 17 gan baragraffau 7, 8 a 12 o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999.

(5) Diwygiwyd adran 26(2) gan baragraff 13 o Atodlen 8, a Rhan 1 o Atodlen 23, i Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007 (p. 15). Diddymwyd adran 26(3) yn rhannol gan Atodlen 6 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999.

(6) Diwygiwyd adran 48(1) gan baragraffau 7 ac 8 o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999.

(7) Mae swyddogaethau "the Ministers", i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, bellach yn arferadwy gan Weiniogion Cymru, gan eu bod wedi eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwnnw, fel y'u darllenir ar y cyd ag adran 40(3) o Ddeddf Safonau Bwyd 1999, ac yna wedi eu trosglwyddo i Weiniogion Cymru gan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30(2)(a) o Atodlen 11 iddi.

(8) O.S. 2009/793.

(1) Paragraph 1A of Schedule 2 was inserted by section 28 of the Legislative and Regulatory Reform Act 2006 (c. 51).

(2) Section 6(4) was amended by paragraph 6 of Schedule 9 to the Deregulation and Contracting Out Act 1994 (c. 40), paragraphs 7, 10(1) and (3) of Schedule 5, and Schedule 6, to the Food Standards Act 1999, and Schedule 2 to S.I. 2002/794.

(3) Section 16(1) was amended by paragraphs 7 and 8 of Schedule 5 to the Food Standards Act 1999.

(4) Section 17 was amended by paragraphs 7, 8 and 12 of Schedule 5 to the Food Standards Act 1999.

(5) Section 26(2) was amended by paragraph 13 of Schedule 8, and Part 1 of Schedule 23, to the Tribunals, Courts and Enforcement Act 2007 (c. 15). Section 26(3) was partially repealed by Schedule 6 to the Food Standards Act 1999.

(6) Section 48(1) was amended by paragraphs 7 and 8 of Schedule 5 to the Food Standards Act 1999.

(7) Functions of "the Ministers", so far as exercisable in relation to Wales, are now exercisable by the Welsh Ministers, having been transferred to the National Assembly for Wales by article 2 of, and Schedule 1 to, the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672), as read with section 40(3) of the Food Standards Act 1999, and then transferred to the Welsh Ministers by section 162 of and paragraph 30(2)(a) of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32).

(8) S.I. 2009/793.

Dehongli

3.–(1) Yn y Rheoliadau hyn–

ystyr "awdurdod bwyd" ("*food authority*") yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol;

ystyr "awdurdod gorfodi" ("*enforcement authority*") yw awdurdod sy'n arfer swyddogaeth a roddir iddo gan reoliad 17;

mae i "canolfan becynnu" yr ystyr a roddir i "*packing centre*" gan is-baragraff (q) o ail baragraff Erthygl 1 o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 589/2008;

ystyr "*cosb*" ("*penalty*") yw'r swm a bennir mewn hysbysiad cosb;

ystyr "Cyfarwyddeb y Cyngor 1999/74/EC" ("*Council Directive 1999/74/EC*") yw Cyfarwyddeb y Cyngor 1999/74/EC(1) sy'n gosod y safonau gofynnol ar gyfer amddiffyn ieir dodwy;

ystyr "Cyfarwyddeb 2000/13/EC" ("*Directive 2000/13/EC*") yw Cyfarwyddeb 2000/13/EC(2) Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gyd-ddynesiad cyfreithiau'r Aelod-wladwriaethau sy'n ymwneud â labelu, cyflwyno a hysbysebu deunydd bwyd;

mae i "cywion" yr ystyr a roddir i "*chicks*" gan Erthygl 1(2) o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 617/2008;

mae i "defnyddiwr terfynol" yr ystyr a roddir i "*final consumer*" gan is-baragraff (r) o ail baragraff Erthygl 1 o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 589/2008;

mae i "deorfa" yr ystyr a roddir i "*hatchery*" gan Erthygl 1(3)(c) o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 617/2008;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Diogelwch Bwyd 1990;

ystyr "gwerthu o dŷ i dŷ" ("*door-to-door selling*") yw gwerthu yn ystod ymweliad digymell gan gynhyrhydd â chartref y defnyddiwr terfynol, neu â chartref person arall, neu â gweithle'r defnyddiwr terfynol;

ystyr "hysbysiad cosb" ("*penalty notice*") yw hysbysiad sy'n cynnig y cyfle, drwy dalu swm penodedig yn unol â'r Rheoliadau hyn, i ymryddhau o fod yn agored i gollfarn am y tramgwydd cosb y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef;

Interpretation

3.–(1) In these Regulations–

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Food Safety Act 1990;

"authorised officer" ("*swyddog awdurdodedig*") means any person who has written authority from an enforcement authority to act in matters arising under or in relation to the Act or these Regulations;

"breeding establishment" ("*sefydliad bridio*") has the meaning given by Article 1(3)(b) of Commission Regulation (EC) No 617/2008;

"chicks" ("*cywion*") has the meaning given by Article 1(2) of Commission Regulation (EC) No 617/2008;

"Commission Regulation (EC) No 589/2008" ("*Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 589/2008*") means Commission Regulation (EC) No 589/2008 laying down detailed rules for implementing Regulation (EC) No 1234/2007 as regards marketing standards for eggs, as amended from time to time.

"Commission Regulation (EC) No 617/2008" ("*Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 617/2008*") means Commission Regulation (EC) No 617/2008 laying down detailed rules for implementing Regulation (EC) No 1234/2007 as regards marketing standards for eggs for hatching and farmyard poultry chicks, as amended from time to time;

"Council Directive 1999/74/EC" ("*Cyfarwyddeb y Cyngor 1999/74/EC*") means Council Directive 1999/74/EC(1) laying down minimum standards for the protection of laying hens;

"Directive 2000/13/EC" ("*Cyfarwyddeb 2000/13/EC*") means Directive 2000/13/EC(2) of the European Parliament and of the Council on the approximation of the laws of the Member States relating to the labelling, presentation and advertising of foodstuffs;

"door-to-door selling" ("*gwerthu o dŷ i dŷ*") means a sale which is made during an unsolicited visit by a producer to the final consumer's home, or to the home of another person, or to the final consumer's place of work;

"eggs" ("*wyau*") has the meaning given by subparagraph (k) of the second paragraph of Article 1 of Commission Regulation (EC) No 589/2008;

(1) OJ Rhif L 203, 3.8.1999, t 53, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 806/2003 (OJ Rhif L 122, 16.5.2003, t. 1).

(2) OJ Rhif L 109, 6.5.2000, t. 29, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 1334/2008 Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L 354, 31.12.2008, t. 34).

(1) OJ No L 203, 3.8.1999, p 53, last amended by Council Regulation (EC) No 806/2003 (OJ No L 122, 16.5.2003, p. 1).

(2) OJ No L 109, 6.5.2000, p. 29, last amended by Regulation (EC) No 1334/2008 of the European Parliament and of the Council (OJ No L 354, 31.12.2008, p. 34).

ystyr "marchnad" ("*market*") yw—

- (a) marchnad neu ffair y caffaelwyd yr hawl i'w chynnal yn rhinwedd grant (gan gynnwys grant tybiedig), neu y caffaelwyd neu sefydlwyd yn rhinwedd deddfiad neu is-ddeddfwriaeth; a
- (b) marchnad dros dro—
 - (i) sy'n cynnwys ymgynulliad o brynwyr a gwerthwyr eitemau, ac a gynhelir rywfodd heblaw mewn adeilad neu a gynhelir ar briffordd, heb ddim llai na phum bwth, stondin, cerbyd (symudadwy ai peidio) neu safleoedd y gwerthir yr eitemau ohonynt; a
 - (ii) y rhoddwyd ar ei chyfer unrhyw hysbysiad sy'n ofynnol o dan adran 37(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982(1);

ystyr "marchnad gyhoeddus leol" ("*local public market*"), mewn perthynas ag wyau a ddodwyir mewn safle cynhyrchu, yw—

- (a) marchnad gyhoeddus sydd o fewn radiws o 80 cilometr o ffin y safle cynhyrchu; neu
- (b) pan fo marchnad gyhoeddus yn rhannol o fewn radiws o 80 cilometr o ffin y safle cynhyrchu ac yn rhannol y tu allan i radiws o 80 cilometr o ffin y safle cynhyrchu, y cyfan o'r farchnad honno;

ystyr "rhanbarth" ("*region*") yw rhanbarth etholiadol o fewn ystyr adran 1(2)(b) o Ddeddf Etholiadau Senedd Ewrop 2002:

ystyr "rhanbarth cynhyrchu" ("*region of production*") mewn perthynas ag wyau sy'n cael eu marchnata gan gynhyrchydd yn uniongyrchol i'r defnyddwyr terfynol drwy werthu o dŷ i dŷ neu mewn marchnad gyhoeddus leol yw—

- (a) pan fo'r safle cynhyrchu lle cynhyrchir yr wyau hynny o fewn un rhanbarth—
 - (i) yr ardal o fewn radiws o 80 cilometr o ffin y safle cynhyrchu; a
 - (ii) unrhyw ran o'r rhanbarth hwnnw sydd y tu allan i'r radiws hwnnw o 80 cilometr o ffin y safle cynhyrchu; a
- (b) pan fo'r safle cynhyrchu lle cynhyrchir yr wyau hynny yn rhannol mewn un rhanbarth ac yn rhannol mewn un neu ragor o ranbarthau eraill—
 - (i) yr ardal sy'n cynnwys yr ardal o fewn radiws o 80 cilometr o ffin y safle cynhyrchu; a
 - (ii) unrhyw ran o'r rhanbarth mwyaf y mae'r safle wedi ei leoli ynddo, sydd y tu allan i'r radiws o 80 cilometr o ffin y safle cynhyrchu;

"eggs for hatching" ("*wyau deor*") has the meaning given by Article 1(1) of Commission Regulation (EC) No 617/2008;

"enforcement authority" ("*awdurdod gorfodi*") means an authority exercising a function conferred on it by regulation 17;

"final consumer" ("*defnyddiwr terfynol*") has the meaning given by sub-paragraph (r) of the second paragraph of Article 1 of Commission Regulation (EC) No 589/2008;

"food authority" ("*awdurdod bwyd*") means a county council or a county borough council;

"hatchery" ("*deorfa*") has the meaning given by Article 1(3)(c) of Commission Regulation (EC) No 617/2008;

"local public market" ("*marchnad gyhoeddus leol*"), in relation to eggs laid at a production site, means—

- (a) a public market that is within an 80 kilometre radius of the boundary of the production site; or
- (b) where a public market is partly within an 80 kilometre radius of the boundary of the production site and partly outside an 80 kilometre radius of the boundary of the production site, the whole of that market;

"market" ("*marchnad*"), when used as a noun, means—

- (a) a market or fair for which the right to hold it was acquired by virtue of a grant (including a presumed grant) or acquired or established by virtue of an enactment or subordinate legislation; and
- (b) a temporary market—
 - (i) comprising of a concourse of buyers and sellers of articles held otherwise than in a building or on a highway, with not less than five stalls, stands, vehicles (whether moveable or not) or pitches from which articles are sold; and
 - (ii) for which any notice required under section 37(2) of the Local Government (Miscellaneous Provisions) Act 1982(1) has been given;

"officer" ("*swyddog*")—

- (a) in relation to a body corporate, means a director, member of the committee of management, chief executive, manager, secretary or other similar officer of the body; and
- (b) in relation to an unincorporated body, means any member of its governing body or a chief

(1) 1982 p. 30 fel y'i darllenir ag adran 17(5) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p.19).

(1) 1982 c. 30 as read with section 17(5) of the Local Government (Wales) Act 1994 (c. 19).

ystyr "Rheoliad (EC) Rhif 2160/2003" ("*Regulation (EC) No 2160/2003*") yw Rheoliad (EC) Rhif 2160/2003(1) Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reoli Salmonella a chyfryngau milheintiol penodedig eraill a gludir mewn bwyd;

ystyr "y Rheoliad Sengl CMO" ("*Single CMO Regulation*") yw Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007 sy'n sefydlu trefniadaeth gyffredin o farchnadoedd amaethyddol ac sy'n gosod darpariaethau penodol ar gyfer cynhyrchion amaethyddol penodol (y Rheoliad Sengl CMO), fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd;

ystyr "Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 589/2008" ("*Commission Regulation (EC) No 589/2008*") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 589/2008 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1234/2007 o ran safonau marchnata ar gyfer wyau, fel y'i diwygiwyd o bryd i'w gilydd;

ystyr "Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 617/2008" ("*Commission Regulation (EC) No 617/2008*") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 617/2008 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1234/2007 o ran safonau marchnata ar gyfer wyau deor a chywion dofednod buarth fferm, fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd;

mae i "safle cynhyrchu" yr ystyr a roddir i "*production site*" gan is-baragraff (p) o ail baragraff Erthygl 1 o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 589/2008;

mae i "sefydliad bridio" yr ystyr a roddir i "*breeding establishment*" gan Erthygl 1(3)(b) o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 617/2008;

mae i "sefydliad bridio pedigri" yr ystyr a roddir i "*pedigree breeding establishment*" gan Erthygl 1(3)(a) o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 617/2008;

ystyr "swyddog" ("*officer*")—

(a) mewn perthynas â chorff corfforaethol yw cyfarwyddwr, aelod o'r pwyllgor rheoli, prif weithredwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog arall cyffelyb o'r corff; a

(b) mewn perthynas â chorff anghorfforedig, yw unrhyw aelod o'i gorff llywodraethu, neu brif weithredwr, rheolwr neu swyddog cyffelyb o'r corff;

ystyr "swyddog awdurdodedig" ("*authorised officer*") yw unrhyw berson a awdurdodwyd yn ysgrifenedig gan awdurdod gorfodi i weithredu mewn cysylltiad â materion sy'n codi o dan neu mewn perthynas â'r Ddeddf neu â'r Rheoliadau hyn;

ystyr "tramgwydd cosb" ("*penalty offence*") yw tramgwydd y caniateir rhoi hysbysiad cosb ar ei

executive, manager or other similar officer of the body;

"packing centre" ("*canolfan becynnu*") has the meaning given by sub-paragraph (q) of the second paragraph of Article 1 of Commission Regulation (EC) No 589/2008;

"pedigree breeding establishment" ("*sefydliad bridio pedigri*") has the meaning given by Article 1(3)(a) of Commission Regulation (EC) No 617/2008;

"penalty" ("*cosb*") means the amount specified in a penalty notice;

"penalty notice" ("*hysbysiad cosb*") means a notice offering the opportunity, by payment of a specified amount in accordance with these Regulations, to discharge any liability to be convicted of the penalty offence to which the notice relates;

"penalty offence" ("*tramgwydd cosb*") means an offence for which a penalty notice may be given under regulation 30;

"production site" ("*safle cynhyrchu*") has the meaning given by sub-paragraph (p) of the second paragraph of Article 1 of Commission Regulation (EC) No 589/2008;

"region" ("*rhanbarth*") means an electoral region within the meaning of section 1(2)(b) of the European Parliamentary Elections Act 2002;

"region of production" ("*rhanbarth cynhyrchu*"), in relation to eggs marketed by a producer direct to a final consumer by door-to-door selling or at a local public market, means—

(a) where the production site at which those eggs are produced is in one region—

- (i) the area within a 80 kilometre radius of the boundary of the production site; and
- (ii) any part of that region that is outside of that 80 kilometre radius of the boundary of the production site; and

(b) where the production site at which those eggs are produced is partly in one region and partly in one or more other regions—

- (i) the area comprising of the area within a 80 kilometre radius of the boundary of the production site; and
- (ii) any part of the largest region into which the site falls that is outside of the 80 kilometre radius of the boundary of the production site;

"Regulation (EC) No 2160/2003" ("*Rheoliad (EC) Rhif 2160/2003*") means Regulation (EC) No 2160/2003(1) of the European Parliament and of

(1) OJ Rhif L 325, 12.12.2003, t. 1, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 213/2009 (OJ Rhif L 73, 19.3.2009, t. 5).

(1) OJ No L 325, 12.12.2003, p. 1, last amended by Commission Regulation (EC) No 213/2009 (OJ No L 73, 19.3.2009, p. 5).

gyfer o dan reoliad 30;

mae i "wyau" yr ystyr a roddir i "eggs" yn is-baragraff (k) o ail baragraff Erthygl 1 o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 589/2008; ac

mae i "wyau deor" yr ystyr a roddir i "eggs for hatching" gan Erthygl 1(1) o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 617/2008.

(2) Mae i unrhyw ymadrodd nas diffinnir ym mharagraff (1), ond a ddefnyddir yn Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn neu yn Atodlen 1 iddynt, ac y defnyddir yr ymadrodd Saesneg sy'n cyfateb iddo yn Rhan C o Atodiad XIV i'r Rheoliad Sengl CMO, yr un ystyr yn y darpariaethau hynny yn y Rheoliadau hyn ag y sydd i'r ymadrodd Saesneg cyfatebol yn y Rheoliad Sengl CMO.

(3) Mae i unrhyw ymadrodd nas diffinnir ym mharagraff (1), ond a ddefnyddir yn Rhannau 3 neu 4 o'r Rheoliadau hyn, neu yn Atodlen 2 iddynt, ac y defnyddir yr ymadrodd Saesneg sy'n cyfateb iddo yn Rhan A o Atodiad XIV i'r Rheoliad Sengl CMO neu yn Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 589/2008, yr un ystyr yn y darpariaethau hynny yn y Rheoliadau hyn ag y sydd i'r ymadrodd Saesneg cyfatebol yn y Rheoliad CE lle y'i defnyddir.

(4) Mae i unrhyw ymadrodd nas diffinnir ym mharagraff (1), ond a ddefnyddir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau hyn, ac y defnyddir yr ymadrodd Saesneg sy'n cyfateb iddo yn Rheoliad (EC) Rhif 2160/2003, yr ystyr sydd i'r ymadrodd Saesneg cyfatebol yn Rheoliad (EC) Rhif 2160/2003.

(5) Ystyr unrhyw gyfeiriad at fynd yn groes i unrhyw ddarpariaeth a grybwyllir yn Atodlen 1, neu at fethiant i gydymffurfio â darpariaeth o'r fath, yw mynd yn groes i'r canlynol neu fethiant i gydymffurfio â'r canlynol—

- (a) unrhyw ddarpariaeth yn y Rheoliad Sengl CMO a grybwyllir yng ngholofn 1 yn Rhan 1 o Atodlen 1, fel y'i darllenir ar y cyd ag unrhyw ddarpariaeth a grybwyllir mewn unrhyw gofnod cyfatebol yng ngholofn 2 yn y Rhan honno; neu
- (b) unrhyw ddarpariaeth yn Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 617/2008 a grybwyllir yng ngholofn 1 yn Rhan 2 o Atodlen 1, fel y'i darllenir ar y cyd ag unrhyw ddarpariaeth a grybwyllir mewn unrhyw gofnod cyfatebol yng ngholofn 2 yn y Rhan honno.

(6) Ystyr unrhyw gyfeiriad at fynd yn groes i unrhyw ddarpariaeth a grybwyllir yn Atodlen 2, neu fethiant i gydymffurfio â darpariaeth o'r fath, yw mynd yn groes i'r canlynol, neu fethiant i gydymffurfio â'r canlynol—

- (a) unrhyw ddarpariaeth yn y Rheoliad Sengl CMO a grybwyllir yng ngholofn 1 yn Rhan 1 o Atodlen 2, fel y'i darllenir ar y cyd ag unrhyw ddarpariaeth a grybwyllir mewn unrhyw gofnod cyfatebol yng ngholofn 2 yn y Rhan honno; neu

the Council on the control of Salmonella and other specified food-borne zoonotic agents; and

"Single CMO Regulation" ("y *Rheoliad Sengl CMO*") means Council Regulation (EC) No 1234/2007 establishing a common organisation of agricultural markets and on specific provisions for certain agricultural products (Single CMO Regulation), as amended from time to time.

(2) Any expression which is not defined in paragraph (1) but is used in Part 2 of, or Schedule 1 to, these Regulations and in Part C of Annex XIV to the Single CMO Regulation has the same meaning in those provisions of these Regulations as it does in the Single CMO Regulation.

(3) Any expression which is not defined in paragraph (1) but is used in Part 3 or 4 of, or Schedule 2 to, these Regulations and in Part A of Annex XIV to the Single CMO Regulation, or Commission Regulation (EC) No 589/2008, has the same meaning in those provisions of these Regulations as it does in the EC Regulation in which it is used.

- (a) a decision by the Welsh Ministers to refuse to register an establishment as a pedigree breeding establishment, other breeding establishment or hatchery under Article 2(1) of Commission Regulation (EC) No 617/2008, or to withdraw such a registration;

- (b) penderfyniad gan Weinidogion Cymru i wrthod awdurdodi ymgymriad yn ganolfan becynnu i raddio wyau o dan is-baragraff cyntaf Erthygl 5(2) o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 589/2008, neu i dynnu'n ôl y cyfryw awdurdodiad;
- (c) penderfyniad gan swyddog awdurdodedig i osod hysbysiad cydymffurfio rheoliad 22(1); neu
- (ch) penderfyniad gan swyddog awdurdodedig i osod hysbysiad cydymffurfio rheoliad 22(4).

(3) Mae adran 37(3), (5) a (6) o'r Ddeddf yn effeithiol mewn perthynas ag apêl o dan y rheoliad hwn fel y mae'n effeithiol mewn perthynas ag apêl o dan yr adran honno, ond gan hepgor—

- (a) yn is-adran (3), y geiriau ", or an appeal to such a court for which provision is made by regulations under Part II of this Act,";
- (b) is-adran (5)(b), a'r gair "or" sy'n dod yn union o'i blaen; ac
- (c) yn is-adran (6)(a), y geiriau "or to the sheriff".

(4) Nid yw tynnu cofrestrriad neu awdurdodiad yn ôl fel y cyfeirir ato ym mharagraff (2) yn cael effaith hyd nes daw'r amser ar gyfer apelio yn ei erbyn i ben, ac os cyflwynir apêl, hyd nes penderfynir yr apêl yn derfynol neu y'i tynnir yn ôl.

Gofynion cadw cofnodion

24.—(1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy hysbysiad, gyfarwyddo unrhyw berson, sy'n ymgymryd ag unrhyw weithgarwch a reoleiddir gan ddarpariaeth a grybwyllir yn Atodlen 1, 2 neu 3, i gydymffurfio ag unrhyw un neu rai o'r gofynion a grybwyllir ym mharagraff (2).

(2) Y gofynion yw—

- (a) cadw pa bynnag gofnodion ag y bo'n ofynnol yn rhesymol gan Weinidogion Cymru at ddibenion gorfodi unrhyw ddarpariaeth o'r fath, neu beri eu bod yn cael eu cadw;
- (b) darparu ar gyfer Gweinidogion Cymru pa bynnag wybodaeth sy'n deillio o'r cyfryw gofnodion ag y bo'n ofynnol gan Weinidogion Cymru, erbyn yr adegau a grybwyllir yn yr hysbysiad; ac
- (c) dal gafael yn y cyfryw gofnodion am ba bynnag gyfnod y bo'n ofynnol yn rhesymol gan Weinidogion Cymru.

(3) Ond rhaid i Weinidogion Cymru beidio â rhoi cyfarwyddyd o dan baragraff (1) onid yw'r cofnodion y mae'r cyfarwyddyd yn ymwneud â hwy yn rhai o'r math a gedwir yn arferol yng nghwrs eu busnes gan bersonau sy'n ymgymryd ag unrhyw weithgarwch a reoleiddir gan ddarpariaeth a grybwyllir yn Atodlen 1, 2 neu 3 ac—

- (b) a decision by the Welsh Ministers to refuse to authorise an undertaking as a packing centre to grade eggs under the first sub-paragraph of Article 5(2) of Commission Regulation (EC) No 589/2008, or to withdraw such an authorisation;
- (c) a decision by an authorised officer to impose a regulation 22(1) compliance notice; or
- (d) a decision by an authorised officer to impose a regulation 22(4) compliance notice.

(3) Section 37(3), (5) and (6) of the Act has effect in relation to an appeal under this regulation as it has effect in relation to an appeal under that section, but with the omission—

- (a) in subsection (3), of the words ", or an appeal to such a court for which provision is made by regulations under Part II of this Act,";
- (b) of subsection 5(b), and the word "or" immediately preceding it; and
- (c) in subsection (6)(a), of the words "or to the sheriff".

(4) The withdrawal of a registration or authorisation referred to in paragraph (2) does not take effect until the time for appealing against it has expired, and, if an appeal is lodged, until the appeal is finally disposed of or withdrawn.

Record-keeping requirements

24.—(1) The Welsh Ministers may by notice direct any person carrying on any activity regulated by a provision mentioned in Schedule 1, 2 or 3 to comply with any of the requirements mentioned in paragraph (2).

(2) The requirements are—

- (a) to keep, or cause to be kept, such records as the Welsh Ministers may reasonably require for the purposes of enforcing any such provision;
- (b) to provide the Welsh Ministers with such information derived from such records as they may require by the times mentioned in the notice; and
- (c) to retain such records for such period as the Welsh Ministers may reasonably require.

(3) But the Welsh Ministers must not give a direction under paragraph (1) unless the records to which the direction relates are of a type that are normally kept in the course of a business by persons carrying on any activity regulated by a provision mentioned in Schedule 1, 2 or 3 and—

- (a) oni roddir y cyfarwyddyd ar neu cyn 16 Ionawr 2010, a Gweinidogion Cymru yn rhesymol yn amau bod y person y rhoddir y cyfarwyddyd iddo wedi mynd yn groes i unrhyw ddarpariaeth a grybwyllir yn Atodlen 1, 2 neu 3, neu wedi methu â chydymffurfio â'r ddarpariaeth honno, ers i'r Rheoliadau hyn ddod i rym;
- (b) oni roddir y cyfarwyddyd ar neu cyn 16 Ionawr 2010, a'r person y rhoddir y cyfarwyddyd iddo wedi ei gollfarnu o dramgwydd o dan reoliad 5, 9 neu 16 o'r Rheoliadau hyn, a Gweinidogion Cymru yn amau yn rhesymol bod y person hwnnw, ers iddo gael ei gollfarnu—
- (i) wedi parhau i fynd yn groes i'r ddarpariaeth a grybwyllir yn Atodlen 1, 2 neu 3 y mae collfarn y person hwnnw yn ymwneud â hi, neu'n parhau i fethu â chydymffurfio â hi; neu
- (ii) wedi mynd yn groes i ryw ddarpariaeth arall a grybwyllir yn Atodlen 1, 2 neu 3, neu wedi methu â chydymffurfio â hi;
- (c) oni roddir y cyfarwyddyd ar neu ar ôl 17 Ionawr 2010, a Gweinidogion Cymru yn rhesymol yn amau bod y person y rhoddir y cyfarwyddyd iddo wedi mynd yn groes i unrhyw ddarpariaeth a grybwyllir yn Atodlen 1, 2 neu 3, neu wedi methu â chydymffurfio â hi o fewn y cyfnod o chwe mis yn union cyn i'r cyfarwyddyd gael ei roi; neu
- (ch) oni roddir y cyfarwyddyd ar neu ar ôl 17 Ionawr 2010, a'r person y rhoddir y cyfarwyddyd iddo wedi ei gollfarnu o dramgwydd o dan reoliad 5, 9 neu 16 o'r Rheoliadau hyn o fewn y cyfnod o chwe mis yn union cyn i'r cyfarwyddyd gael ei roi, a Gweinidogion Cymru yn amau yn rhesymol bod y person hwnnw, ers iddo gael ei gollfarnu—
- (i) wedi parhau i fynd yn groes i'r ddarpariaeth a grybwyllir yn Atodlen 1, 2 neu 3 y mae collfarn y person hwnnw yn ymwneud â hi, neu'n parhau i fethu â chydymffurfio â hi; neu
- (ii) wedi mynd yn groes i ryw ddarpariaeth arall a grybwyllir yn Atodlen 1, 2 neu 3, neu wedi methu â chydymffurfio â hi.
- (a) the direction will be given on or before 16 January 2010 and the Welsh Ministers reasonably suspect that the person to whom the direction will be given has contravened, or failed to comply with, any provision mentioned in Schedule 1, 2 or 3 since the coming into force of these Regulations;
- (b) the direction will be given on or before 16 January 2010, the person to whom the direction will be given has been convicted of an offence under regulation 5, 9 or 16 of these Regulations and the Welsh Ministers reasonably suspects that, since the conviction, that person—
- (i) has continued to contravene, or fail to comply with, the provision mentioned in Schedule 1, 2 or 3 to which that person's conviction relates; or
- (ii) has contravened, or failed to comply with, some other provision mentioned in Schedule 1, 2 or 3;
- (c) the direction will be given on or after 17 January 2010 and the Welsh Ministers reasonably suspect that the person to whom the direction will be given has contravened, or failed to comply with, any provision mentioned in Schedule 1, 2 or 3 within the six month period immediately before the direction is given; or
- (d) the direction will be given on or after 17 January 2011, the person to whom the direction will be given has been convicted of an offence under regulation 5, 9 or 16 of these Regulations within the six month period immediately before the giving of the direction, and the Welsh Ministers reasonably suspect that, since the conviction, that person—
- (i) has continued to contravene, or fail to comply with, the provision mentioned in Schedule 1, 2 or 3 to which that person's conviction relates; or
- (ii) has contravened, or failed to comply with, some other provision mentioned in Schedule 1, 2 or 3.

(4) Mae person yn euog o dramgwydd os nad yw'n cydymffurfio ag unrhyw ofyniad a osodir arno gan gyfarwyddyd a roddir gan Weinidogion Cymru o dan baragraff (1).

(4) A person is guilty of an offence if they do not comply with any requirement imposed on them by a direction given by the Welsh Ministers under paragraph (1).

Cyhoeddi gwybodaeth ynghylch gorfodi

25.—(1) Rhaid i awdurdod gorfodi roi cyhoeddusrwydd i achosion pan fo eitemau yr ymafaelwyd ynddynt o dan reoliad 20(8) wedi eu

Publication of enforcement information

25.—(1) An enforcement authority must publicise the cases in which items seized under regulation 20(8) have been destroyed and shall do so in such manner as

dinistrio, a rhaid iddo wneud hynny ym mha bynnag fodd y gwêl yn briodol.

(2) Ond rhaid i'r awdurdod gorfodi beidio â rhoi cyhoeddusrwydd i ddinistrio unrhyw eitem yr ymafaelir ynddi o dan reoliad 20(8) os yw o'r farn y byddai'n amhriodol gwneud hynny.

(3) Rhaid i awdurdod gorfodi roi cyhoeddusrwydd i achosion pan roddir hysbysiadau cydymffurfio ganddo o dan reoliad 22, a rhaid iddo wneud hynny ym mha bynnag fodd y gwêl yn briodol.

(4) Ond rhaid i'r awdurdod gorfodi beidio â rhoi cyhoeddusrwydd i hysbysiad cydymffurfio a roddir ganddo o dan reoliad 22—

- (a) cyn bo'r cyfnod ar gyfer apelio yn erbyn gosod yr hysbysiad cydymffurfio wedi dod i ben;
- (b) yn ystod y cyfnod pan fo unrhyw apêl yn erbyn gosod yr hysbysiad cydymffurfio yn parhau;
- (c) pan fo apêl yn erbyn gosod yr hysbysiad cydymffurfio wedi llwyddo; neu
- (ch) mewn unrhyw achos arall pan fo'r awdurdod gorfodi o'r farn y byddai'n amhriodol gwneud hynny.

Rhwystro

26. Mae person ("P") yn euog o dramgwydd os yw—

- (a) yn rhwystro unrhyw berson ("S") sy'n gweithredu i roi'r Rheoliadau hyn ar waith;
- (b) yn methu â rhoi i S unrhyw gymorth neu wybodaeth y mae'n rhesymol i S ofyn amdano neu amdani gan P, ar gyfer cyflawni swyddogaethau S o dan y Rheoliadau hyn;
- (c) yn rhoi unrhyw wybodaeth ffug neu gamarweiniol i S; neu
- (ch) yn methu â dangos unrhyw gofnod pan ofynnir iddo wneud hynny gan S.

Dirwy

27. Mae person sy'n euog o dramgwydd o dan reoliad 5, 9, 16, 20(3), (4), (6), (11) neu (12), 22(3), (7) neu (8), 24(4) neu 26 yn atebol ar gollfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol.

Estyn y cyfnod ar gyfer dwyn erlyniad

28.—(1) Caniateir cychwyn achos am dramgwydd o dan y Rheoliadau hyn o fewn y cyfnod o un flwyddyn o'r dyddiad pryd y daeth tystiolaeth sy'n ddigonol ym marn yr erlynydd i gyfiawnhau dwyn yr achos i sylw'r erlynydd.

(2) Ond ni chaniateir cychwyn achos o'r fath yn rhinwedd paragraff (1) fwy na thair blynedd ar ôl cyflawni'r tramgwydd.

it sees fit.

(2) But an enforcement authority must not publicise the destruction of any item seized under regulation 20(8) where it considers that it would be inappropriate to do so.

(3) An enforcement authority must publicise the cases in which compliance notices have been given by it under regulation 22 and shall do so in such manner as it sees fit.

(4) But an enforcement authority must not publicise an compliance notice given by it under regulation 22—

- (a) until the time for appealing against the imposition of the compliance notice has passed;
- (b) during the period that any appeal against the imposition of the compliance notice is ongoing;
- (c) where an appeal against the imposition of the compliance notice is successful; or
- (d) in any other case where the enforcement authority considers that it would be inappropriate to do so.

Obstruction

26. A person ("P") is guilty of an offence if they—

- (a) obstruct any person acting in the execution of these Regulations ("O");
- (b) fail to give to O any assistance or information that O may reasonably require of P for the performance of O's functions under these Regulations;
- (c) furnish any false or misleading information to O; or
- (d) fail to produce a record when required to do so to O.

Fine

27. A person guilty of an offence under regulation 5, 9, 16, 20(3), (4), (6), (11) or (12), 22(3), (7) or (8), 24(4) or 26 is liable on summary conviction to a fine not exceeding level 5 on the standard scale.

Extended period for bringing prosecutions

28.—(1) Proceedings for an offence under these Regulations may be commenced within the period of one year from the date on which evidence sufficient in the opinion of the prosecutor to warrant the proceedings came to the prosecutor's knowledge.

(2) But no such proceedings may be commenced by virtue of paragraph (1) more than three years after the commission of the offence.

(3) At ddibenion y rheoliad hwn—

- (a) mae tystysgrif a lofnodwyd gan yr erlynydd neu ar ei ran ac y nodir arni'r dyddiad pryd y daeth tystiolaeth sy'n ddigonol ym marn yr erlynydd i gyfiawnhau dwyn achos i sylw'r erlynydd yn dystiolaeth ddigamsyniol o'r ffaith honno; a
- (b) rhaid barnu bod tystysgrif sy'n datgan y mater hwnnw ac yr honnir iddi gael ei llofnodi felly wedi ei llofnodi felly oni cheir prawf i'r gwrthwyneb.

Tramgwyddau gan gyrff corfforaethol etc.

29.—(1) Os profir bod tramgwydd a gyflawnir gan gorff corfforaethol (ac eithrio partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig neu bartneriaeth Albanaidd) wedi'i gyflawni drwy gydsyniad neu ymoddefiad, neu i'w briodoli i unrhyw esgeulustod ar ran, swyddog o'r corff corfforaethol, neu berson sy'n honni gweithredu mewn swydd o'r fath, mae'r swyddog neu'r person hwnnw (yn ogystal â'r corff corfforaethol) yn euog o'r tramgwydd ac yn agored i gael ei erlyn a'i gosbi yn unol â hynny.

(2) Pan fo materion corff corfforaethol yn cael eu rheoli gan ei aelodau, mae paragraff (1) yn gymwys mewn perthynas â gweithredoedd a diffyg gweithredoedd aelod, a pherson sy'n honni gweithredu mewn swydd o'r fath, mewn cysylltiad â swyddogaethau'r aelod o reoli, fel y mae'n gymwys i swyddog corff corfforaethol.

(3) Os profir bod tramgwydd a gyflawnir gan gorff anghorfforedig (ac eithrio partneriaeth anghorfforedig) wedi'i gyflawni drwy gydsyniad neu ymoddefiad, neu i'w briodoli i unrhyw esgeulustod ar ran, unrhyw swyddog neu berson sy'n honni gweithredu mewn swydd o'r fath, mae'r swyddog neu'r person hwnnw (yn ogystal â'r corff anghorfforedig) yn euog o'r tramgwydd ac yn agored i gael ei erlyn a'i gosbi yn unol â hynny.

(4) Os profir bod tramgwydd a gyflawnir gan bartneriaeth (gan gynnwys partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig neu bartneriaeth Albanaidd) wedi'i gyflawni drwy gydsyniad neu ymoddefiad, neu i'w briodoli i unrhyw esgeulustod ar ran partner, neu berson sy'n honni gweithredu mewn swydd o'r fath, mae'r partner neu'r person (yn ogystal â'r bartneriaeth) yn euog o'r tramgwydd ac yn agored i gael ei erlyn a'i gosbi yn unol â hynny.

(5) Yn y rheoliad hwn, ystyr "tramgwydd" ("*offence*") yw tramgwydd o dan y Rheoliadau hyn.

Rhoi hysbysiad cosb am dramgwydd cosb

30. Caiff awdurdod gorfodi roi hysbysiad cosb i berson ("P") os oes rheswm gan yr awdurdod i gredu bod P wedi cyflawni tramgwydd o dan reoliad 16 drwy fynd yn groes i ddarpariaeth o Reoliad (EC) Rhif 2160/2003 a grybwyllir yng ngholofn 1 o Atodlen 3,

(3) For the purposes of this regulation—

- (a) a certificate signed by or on behalf of the prosecutor and stating the date on which evidence sufficient in the prosecutor's opinion to warrant the proceedings came to the prosecutor's knowledge is conclusive evidence of that fact; and
- (b) a certificate stating that matter and purporting to be so signed, is deemed to be so signed unless the contrary is proved.

Offences by bodies corporate etc.

29.—(1) Where an offence committed by a body corporate (other than a limited liability partnership or a Scottish partnership) is proved to have been committed with the consent or connivance of, or is attributable to the neglect of, an officer of the body corporate, or a person purporting to act in such a capacity, that officer or person (as well as the body corporate) is guilty of the offence and is liable to be proceeded against and punished accordingly.

(2) Where the affairs of a body corporate are managed by its members, paragraph (1) applies in relation to the acts and defaults of a member, and a person purporting to act in such a capacity, in connection with the member's functions of management as it applies to an officer of a body corporate.

(3) Where an offence committed by an unincorporated body (other than an unincorporated partnership) is proved to have been committed with the consent or connivance of, or is attributable to the neglect on the part of, any officer or a person purporting to act in such a capacity, that officer or person (as well as the unincorporated body) is guilty of the offence and liable to be proceeded against and punished accordingly.

(4) Where an offence committed by a partnership (including a limited liability partnership and a Scottish partnership) is proved to have been committed with the consent or connivance of, or is attributable to the neglect of a partner, or a person purporting to act in such a capacity, the partner or person (as well as the partnership) is guilty of the offence and liable to be proceeded against and punished accordingly.

(5) In this regulation "offence" ("*tramgwydd*") means an offence under these Regulations.

Giving of penalty notice for penalty offence

30. An enforcement authority may give a penalty notice to a person ("P") where the authority has reason to believe that P has committed an offence under regulation 16 by contravening or failing to comply with a provision of Regulation (EC) No 2160/2003

neu fethu â chydymffurfio â hi.

Cynnwys yr hysbysiad cosb

31. Rhaid i hysbysiad cosb a roddir gan awdurdod gorfodi—

- (a) rhoi pa a bynnag fanylion sy'n angenrheidiol am yr amgylchiadau, yr honnir eu bod yn ffurfio'r tramgwydd cosb, i gyfleu gwybodaeth resymol am y tramgwydd;
- (b) datgan swm y gosb;
- (c) datgan yn ystod pa gyfnod, yn rhinwedd rheoliad 33, na chychwynnir achos ynglŷn â'r tramgwydd;
- (ch) datgan i ba berson ac ym mha gyfeiriad y gellir talu'r gosb; a
- (d) datgan rhaid peidio â thalu mewn arian parod.

Swm y gosb

32.—(1) Mae swm y gosb i'w benderfynu gan yr awdurdod gorfodi, a rhaid iddo beidio â bod yn llai na £100 nac yn fwy na £4,500.

(2) Caiff y ffactorau sydd i'w cymryd i ystyriaeth gan yr awdurdod gorfodi wrth benderfynu swm y gosb gynnwys un neu ragor o'r ffactorau a grybwyllir yn Atodlen 4 (ond nid ydynt yn gyfyngedig i'r ffactorau hynny).

Cyfyngiad ar ddwyn achos am dramgwydd cosb

33.—(1) Pan roddir hysbysiad cosb i berson ("P")—

- (a) ni chaniateir dwyn achos yn erbyn P am y tramgwydd cosb y mae'r hysbysiad hwnnw'n ymwneud ag ef cyn diwedd y cyfnod o 28 diwrnod sy'n cychwyn gyda'r diwrnod y rhoddir yr hysbysiad iddo; a
- (b) ni chaniateir collfarnu P am y tramgwydd os telir y gosb yn unol â rheoliad 34 cyn diwedd y cyfnod hwnnw.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys os tynnir y rhybudd cosb yn ôl yn unol â rheoliad 37.

Talu'r gosb

34.—(1) Rhaid talu unrhyw gosb i'r person a grybwyllir yn yr hysbysiad cosb drwy anfon y tâl drwy'r post neu drwy ba bynnag ddull a grybwyllir yn yr hysbysiad.

(2) Rhaid i unrhyw gosb beidio â chael ei thalu mewn arian parod.

Tystysgrif o dalu neu o beidio â thalu cosb

35. Mewn unrhyw achos, mae tystysgrif, yr honnir ei

mentioned in column 1 of Schedule 3.

Contents of penalty notice

31. A penalty notice given by an enforcement authority must—

- (a) give such particulars of the circumstances alleged to constitute the penalty offence as are necessary for giving reasonable information about the offence;
- (b) state the amount of the penalty;
- (c) state the period during which, by virtue of regulation 33, proceedings will not be taken for the offence;
- (d) state the person to whom, and the address at which, the penalty may be paid; and
- (e) state that payment must not be made in cash.

Amount of penalty

32.—(1) The amount of the penalty is to be determined by the enforcement authority and must not be less than £100 or more than £4,500.

(2) The factors to be taken into account by the enforcement authority in determining the amount of the penalty may include (but are not limited to) one or more of the factors mentioned in Schedule 4.

Restriction on proceedings for penalty offence

33.—(1) Where a person ("P") is given a penalty notice—

- (a) no proceedings may be brought against P for the penalty offence to which that notice relates before the end of the period of 28 days, beginning with the day on which they were given the notice; and
- (b) P may not be convicted of the offence if the penalty is paid in accordance with regulation 34 before the end of that period.

(2) Paragraph (1) does not apply if the penalty notice is withdrawn in accordance with regulation 37.

Payment of penalty

34.—(1) Payment of any penalty must be made to the person mentioned in the penalty notice by sending it by post or by such method as may be mentioned in the notice.

(2) Payment of any penalty must not be made in cash.

Certificate of payment or non-payment of a penalty

35. In any proceedings a certificate purporting to be

bod wedi ei llofnodi gan neu ar ran yr awdurdod gorfodi, sy'n datgan bod taliad mewn perthynas â hysbysiad cosb wedi ei gael neu heb ei gael ar neu cyn dyddiad a grybwyllir yn y dystysgrif, yn dystiolaeth o'r ffeithiau a ddatgenir.

Derbyniadau cosbau

36. Rhaid i unrhyw gosbau a delir i awdurdod gorfodi gael eu talu i Gronfa Gyfunol Cymru.

Tynnu hysbysiad cosb yn ôl

37.—(1) Caiff awdurdod gorfodi dynnu hysbysiad cosb yn ôl os oes rheswm gan yr awdurdod gorfodi i gredu na ddylid bod wedi ei roi (pa un ai i'r person a enwir yn yr hysbysiad cosb neu fel arall).

(2) Caiff awdurdod gorfodi dynnu hysbysiad cosb yn ôl drwy roi hysbysiad i'r person a enwir yn yr hysbysiad cosb, cyn neu ar ôl talu'r gosb.

(3) Pan fo awdurdod gorfodi yn tynnu hysbysiad cosb yn ôl, rhaid iddo ad-dalu unrhyw gosb a dalwyd o dan yr hysbysiad cosb, i'r person a enwir yn yr hysbysiad cosb, o fewn cyfnod o 28 diwrnod, sy'n cychwyn gyda'r diwrnod y rhoddir yr hysbysiad o dynnu'n ôl yr hysbysiad cosb.

Rhoi hysbysiadau

38.—(1) Rhaid i unrhyw hysbysiad y mae'n ofynnol ei roi o dan y Rheoliadau hyn, i unrhyw berson, fod mewn ysgrifen, a gellir ei roi iddo—

- (a) drwy ei ddanfôn i'r person hwnnw;
- (b) ei adael yn ei gyfeiriad priodol;
- (c) ei anfon ato yn y cyfeiriad hwnnw drwy'r post rhagdaledig; neu
- (ch) yn ddarostyngedig i baragraff (9), drwy ei anfon ato mewn cyfathrebiad electronig.

(2) Caniateir rhoi'r hysbysiad i gorff corfforaethol drwy ei roi i swyddog o'r corff hwnnw.

(3) Caniateir rhoi'r hysbysiad i bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig, partneriaeth Albanaidd neu bartneriaeth anghorfforedig drwy ei roi i bartner neu i berson sydd â rheolaeth ar, neu sy'n rheoli, busnes y bartneriaeth.

(4) Caniateir rhoi'r hysbysiad i unrhyw gorff anghorfforedig arall drwy ei roi i swyddog y corff anghorfforedig.

(5) At ddibenion y rheoliad hwn, ac adran 7 o Ddeddf Dehongli 1978(1) (cyflwyno dogfennau drwy'r post) o ran y modd y'i cymhwysir i'r rheoliad hwn, cyfeiriad priodol unrhyw berson y rhoddir hysbysiad iddo yw—

signed by or on behalf of the enforcement authority, stating that payment in respect of a penalty notice was or was not received on or before a date mentioned in the certificate, is evidence of the facts stated.

Penalty receipts

36. Penalties paid to an enforcement authority must be paid into the Welsh Consolidated Fund.

Withdrawal of penalty notice

37.—(1) A penalty notice may be withdrawn by an enforcement authority which has reason to believe that it ought not to have been given (whether to the person named in the penalty notice or otherwise).

(2) A penalty notice may be withdrawn by the enforcement authority giving notice to the person named in the penalty notice before or after the payment of the penalty.

(3) Where an enforcement authority withdraws a penalty notice it must repay any penalty paid under the penalty notice to the person named in the penalty notice within 28 days, beginning with the day on which the notice of the withdrawal of the penalty notice is given.

Giving of notices

38.—(1) Any notice required to be given under these Regulations to any person must be in writing and may be given to them by—

- (a) delivering it to them;
- (b) leaving it at their proper address;
- (c) sending it to them by prepaid post at that address; or
- (d) subject to paragraph (9), by being sent to them by an electronic communication.

(2) The notice may be given to a body corporate by being given to an officer of that body.

(3) The notice may be given to a limited liability partnership, Scottish partnership or unincorporated partnership by being given to a partner or a person having the control or management of the partnership business.

(4) The notice may be given to any other unincorporated body by being given to an officer of the unincorporated body.

(5) For the purposes of this regulation and section 7 of the Interpretation Act 1978(1) (service of documents by post) in its application to this regulation, the proper address of any person to whom a notice is to be given is—

(1) 1978 p. 30. Diwygiwyd adran 15(1) gan baragraff 158 o Atodlen 17 i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (p. 21).

(1) 1978 c. 30. Section 15(1) was amended by paragraph 158 of Schedule 17 to the Communications Act 2003 (c. 21).

- (a) yn achos corff corfforaethol, cyfeiriad swyddfa gofrestredig neu brif swyddfa'r corff;
- (b) yn achos partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig neu bartneriaeth Albanaidd, cyfeiriad swyddfa gofrestredig neu brif swyddfa'r bartneriaeth;
- (c) yn achos partneriaeth anghorfforedig neu unrhyw gorff anghorfforedig arall, cyfeiriad prif swyddfa'r bartneriaeth neu'r corff;
- (ch) yn achos person y rhoddir yr hysbysiad iddo gan ddibynnu ar unrhyw un o baragraffau (2), (3) neu (4), cyfeiriad priodol y corff corfforaethol, partneriaeth neu gorff anghorfforedig arall dan sylw; a
- (d) mewn unrhyw achos arall, cyfeiriad hysbys diwethaf y person dan sylw.

(6) At ddibenion paragraff (5) mae'r cyfeiriadau at "y brif swyddfa" mewn perthynas â chwmmi a gofrestrwyd y tu allan i'r Deyrnas Unedig, partneriaeth sy'n cynnal busnes y tu allan i'r Deyrnas Unedig, ac unrhyw gorff anghorfforedig arall sydd â'i brif swyddfa y tu allan i'r Deyrnas Unedig, yn cynnwys cyfeiriad, ym mhob achos, i'w prif swyddfa (os oes un) o fewn y Deyrnas Unedig.

(7) Mae paragraff (8) yn gymwys os yw person, sydd i gael hysbysiad o dan y Rheoliadau hyn, wedi pennu mai cyfeiriad o fewn y Deyrnas Unedig ("y cyfeiriad penodedig") sy'n wahanol i'w gyfeiriad priodol (fel y'i penderfynir o dan baragraff (5)) fydd y cyfeiriad lle y bydd ef, neu rywun ar ei ran, yn derbyn dogfennau o'r un disgrifiad â hysbysiad a roddir o dan y Rheoliadau hyn.

(8) Rhaid trin y cyfeiriad penodedig hefyd, at ddibenion y rheoliad hwn ac adran 7 o Ddeddf Dehongli 1978 yn y modd y'i cymhwysir i'r rheoliad hwn, fel cyfeiriad priodol y person.

(9) Os anfonir hysbysiad, sydd i'w roi i berson o dan y Rheoliadau hyn, mewn cyfathrebiad electronig gan awdurdod gorfodi, nid yw'r hysbysiad i'w drin fel pe bai wedi ei roi—

- (a) onid yw'r person y rhoddir yr hysbysiad iddo wedi dynodi wrth yr awdurdod gorfodi ei fod yn fodlon cael hysbysiadau mewn cyfathrebiadau electronig ac wedi darparu cyfeiriad addas at y diben hwnnw; a
- (b) onid anfonir yr hysbysiad i'r cyfeiriad a ddarparwyd gan y person hwnnw.

(10) Yn y rheoliad hwn—

nid yw "corff corfforaethol" ("*body corporate*") yn cynnwys partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig na phartneriaeth Albanaidd; ac

- (a) in the case of a body corporate, the address of the registered or principal office of the body;
- (b) in the case of a limited liability partnership or a Scottish partnership, the address of the registered or principal office of the partnership;
- (c) in the case of an unincorporated partnership or any other unincorporated body, the address of the principal office of the partnership or body;
- (d) in the case of a person to whom the notice is given in reliance on any of paragraph (2), (3) or (4), the proper address of the body corporate, partnership or other unincorporated body in question; and
- (e) in any other case, the last known address of the person in question.

(6) For the purposes of paragraph (5) the references to "the principal office" in relation to a company which is registered outside the United Kingdom, a partnership which is carrying on business outside the United Kingdom and any other unincorporated body which has its principal office outside the United Kingdom, include a reference, in each case, to their principal office within the United Kingdom (if any).

(7) Paragraph (8) applies if a person to be given a notice under these Regulations has specified an address ("the specified address") within the United Kingdom other than their proper address (as decided under paragraph (5)) as the one at which they, or someone on their behalf, will accept documents of the same description as a notice given under these Regulations.

(8) The specified address is also to be treated for the purposes of this regulation and section 7 of the Interpretation Act 1978 in its application to this regulation as the person's proper address.

(9) If a notice under these Regulations to be given to a person is sent by an enforcement authority by an electronic communication, it is to be treated as given only if—

- (a) the person to whom the notice is given has indicated a willingness to the enforcement authority to receive notices by an electronic communication and provided an address suitable for that purpose; and
- (b) the notice is sent to the address provided by that person.

(10) In this regulation—

"body corporate" ("*corff corfforaethol*") does not include a limited liability partnership or a Scottish partnership; and

mae i "cyfathrebiad electronig" yr ystyr a roddir i "electronic communication" yn adran 15(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau Electronig 2000(1).

"electronic communication" ("cyfathrebiad electronig") has the same meaning as in section 15(1) of the Electronic Communications Act 2000(1).

Cymhwyso amrywiol ddarpariaethau o'r Ddeddf

39.–(1) Mae'r darpariaethau canlynol o'r Ddeddf yn gymwys at ddibenion y Rheoliadau hyn gyda'r addasiadau a grybwyllir ym mharagraff (2)–

adran 3 (rhagdybiaethau y bwriedir bwyd i'w fwyta gan bobl);

adran 20 (tramgwyddau oherwydd bai person arall);

adran 21(2) (amddiffyniad diwydrwydd dyladwy);

adran 29 (caffael samplau);

adran 30(8) (tystiolaeth ddogfennol);

adran 44 (diogelu swyddogion sy'n gweithredu'n ddiwyll); ac

adran 46(1) (treuliau swyddogion awdurdodedig).

(2) Yr addasiadau yw–

- (a) rhaid dehongli unrhyw gyfeiriad yn y darpariaethau a bennir ym mharagraff (1) at y Ddeddf (neu Ran o'r Ddeddf) fel cyfeiriad at y Rheoliadau hyn;
- (b) rhaid dehongli unrhyw gyfeiriad yn y darpariaethau a bennir ym mharagraff (1) at swyddog awdurdodedig, swyddog awdurdod gorfodi, neu swyddog awdurdod bwyd fel cyfeiriad at swyddog awdurdodedig fel y'i diffinnir yn rheoliad 3(1) o'r Rheoliadau hyn;
- (c) o ran adran 20, rhaid dehongli'r cyfeiriad at yr adran honno fel pe bai'n cynnwys cyfeiriad at yr adran honno fel y'i cymhwysir i'r Rheoliadau hyn gan baragraff (1);
- (ch) o ran adran 21(2), yn lle'r geiriau "section 14 or 15 above" rhodder y geiriau "these Regulations";
- (d) o ran adran 29–
 - (i) ym mharagraff (b)(ii), rhaid dehongli'r cyfeiriad at adran 32 fel pe bai'n cynnwys cyfeiriad at reoliad 20 o'r Rheoliadau hyn; a
 - (ii) ym mharagraff (d), hepgorer y geiriau "or of regulations or orders made under it";
- (dd) o ran adran 30(8)(a), hepgorer y geiriau "under subsection (6) above"; ac
- (e) o ran adran 44, rhaid dehongli unrhyw gyfeiriad at awdurdod bwyd fel cyfeiriad at awdurdod gorfodi.

Application of various provisions of the Act

39.–(1) The following provisions of the Act apply for the purposes of these Regulations with the modifications mentioned in paragraph (2)–

section 3 (presumptions that food intended for human consumption);

section 20 (offences due to fault of another person);

section 21(2) (defence of due diligence);

section 29 (procurement of samples);

section 30(8) (documentary evidence);

section 44 (protection of officers acting in good faith); and

section 46(1) (expenses of authorised officers).

(2) The modifications are–

- (a) any reference in the provisions specified in paragraph (1) to the Act (or a Part of the Act) must be construed as a reference to these Regulations;
- (b) any reference in the provisions specified in paragraph (1) to an authorised officer, or an officer of an enforcement authority or food authority, must be construed as a reference to an authorised officer as defined in regulation 3(1) of these Regulations;
- (c) in relation to section 20, the reference to that section must be construed as including a reference to that section as applied to these Regulations by paragraph (1);
- (d) in relation to section 21(2), the words "section 14 or 15 above" must be replaced with the words "these Regulations";
- (e) in relation to section 29–
 - (i) in paragraph (b)(ii), the reference to section 32 must be construed as including a reference to regulation 20 of these Regulations; and
 - (ii) in paragraph (d), the omission of the words "or of regulations or orders made under it";
- (f) in relation to section 30(8)(a), the omission of the words "under subsection (6) above"; and
- (g) in relation to section 44, any reference to a food authority must be construed as a reference to an enforcement authority.

(1) 2000 p. 7.

(2) Diwygiwyd adran 21(2) gan O.S. 2004/3279.

(1) 2000 c. 7.

(2) Section 21(2) was amended by S.I. 2004/3279.

Darpariaeth drosiannol

40. Mae unrhyw awdurdod ysgrifenedig a roddwyd i unrhyw berson i weithredu mewn materion sy'n deillio o dan neu mewn perthynas â Rheoliadau Wyau (Safonau Marchnata) 1995(1) neu Reoliadau Wyau a Chywion (Cymru) 2009(2) yn effeithiol fel pe bai'n cyfeirio at y Rheoliadau hyn.

Transitional provision

40. Any written authority granted to any person to act in matters arising under or in relation to the Eggs (Marketing Standards) Regulations 1995(1) or the Eggs and Chicks (Wales) Regulations 2009(2) has effect as if it referred to these Regulations.

Elin Jones

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, un o
Weinidogion Cymru

22 Mehefin 2010

Minister for Rural Affairs, one of the Welsh Ministers

22 June 2010

(1) O.S. 1995/1544, dirymwyd gan O.S.A 2005/332 o ran yr Alban, O.S. 2007/2245 o ran Lloegr ac O.S. 2009/793 (Cy. 71) o ran Cymru.

(2) O.S. 2009/793.

(1) S.I. 1995/1544, revoked by S.S.I. 2005/332 in relation to Scotland, S.I. 2007/2245 in relation to England and S.I. 2009/793 (W.71) in relation to Wales.

(2) S.I. 2009/793.

ATODLEN 1

Rheoliad 5

DARPARIAETHAU CYMUNEDOL YNGLŶN AG WYAU DEOR A CHYWION Y MAE METHU Â CHYDYMFFURFIO Â HWY YN DRAMGWYDD

RHAN 1

DARPARIAETHAU'R RHEOLIAD SENGL CMO

<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>	<i>Colofn 3</i>
Y ddarpariaeth berthnasol yn y Rheoliad Sengl CMO	Darpariaethau i'w darllen gyda darpariaethau'r Rheoliad Sengl CMO a grybwyllir yng ngholofn 1	Y pwnc
Erthygl 113(3), yr is-baragraff cyntaf, i'r graddau y mae'n ymwneud â marchnata wyau deor a chywion	Erthygl 116 o'r Rheoliad Sengl CMO a Rhan C o Atodiad XIV iddo, a Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 617/2008	Gwaharddiad ar farchnata wyau deor a chywion ac eithrio yn unol â'r safonau marchnata a osodir yn Rhan C o Atodiad XIV i'r Rheoliad Sengl CMO a Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 617/2008.
Pwynt II(1) o Ran C o Atodiad XIV	Erthygl 3(1) o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 617/2008	Marcio wyau deor.
Pwynt II(2) o Ran C o Atodiad XIV	Erthygl 3(4) a (5) o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 617/2008	Cludo a phacio wyau deor.
Pwynt II(3) o Ran C o Atodiad XIV	Erthygl 3(8) o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 617/2008	Mewnforio pecynnau o wyau deor o drydedd wlad.
Pwynt III(1) o Ran C o Atodiad XIV	Erthygl 4(1) o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 617/2008	Pacio cywion yn ôl rhywogaeth, math a chategori o ddefnod.
Pwynt III(2) o Ran C o Atodiad XIV	Erthygl 4(2) o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 617/2008	Cynnwys a marciau bocsys o gywion.
Pwynt III(3) o Ran C o Atodiad XIV	Pwynt III(1) o Ran C o Atodiad XIV i'r Rheoliad Sengl CMO ac Erthygl 4(1) a (3) o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 617/2008	Mewnforio cywion o drydedd wlad.

RHAN 2

DARPARIAETHAU RHEOLIAD Y COMISIWN (EC) RHIF 617/2008

<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>	<i>Colofn 3</i>
Darpariaeth berthnasol Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 617/2008	Darpariaethau sydd i'w darllen gyda darpariaethau Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 617/2008 a grybwyllir yng ngholofn 1	Y pwnc
Erthygl 2(1)		Cofrestru sefydliadau bridio pedigri, sefydliadau bridio a deorfeydd.
Erthygl 3(1)	Erthygl 3(2) a (3) o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 617/2008	Marcio wyau deor fesul un.
Erthygl 3(2)	Erthygl 3(3) a (5) o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 617/2008 a rheoliad 7	Marcio wyau deor yn y sefydliad cynhyrchu.
Erthygl 3(4)	Erthygl 3(5) a (6) o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 617/2008 ac Atodiad II iddo	Cludo wyau deor: gofynion pacio.
Erthygl 3(6)	Erthygl 3(4) a (5) o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 617/2008	Rhif unigryw'r sefydliad cynhyrchu ar becynnau a chynwysyddion y cludir wyau deor ynddynt.
Erthygl 3(7)	Erthygl 3(1), (2) a (3) o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 617/2008 a rheoliad 7	Gwaharddiad ar gludo neu fasnachu wyau deor rhwng Aelod-wladwriaethau onid ydynt wedi'u marcio'n gywir.
Erthygl 3(8)		Marcio a pheccynnau wyau deor a fewnforir.
Erthygl 4(1)	Pwynt III(1) o Ran C o Atodiad XIV i'r Rheoliad Sengl CMO ac Erthygl 4(2) o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 617/2008	Pacio cywion yn ôl rhywogaeth, math a chategori o ddofednod.
Erthygl 4(2)	Pwynt III(2) o Ran C o Atodiad XIV i'r Rheoliad Sengl CMO ac Erthygl 4(1) o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 617/2008	Cynhwysiad a gofynion marcio sylfaenol ar gyfer pecynnau sy'n cynnwys cywion.
Erthygl 4(3)	Pwynt III(3) o Ran C o Atodiad XIV i'r Rheoliad Sengl CMO ac Erthygl 4(1) o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 617/2008	Mewnforio cywion o drydydd gwledydd, gan gynnwys cynhwysiad a gofynion marcio sylfaenol ar gyfer pecynnau sy'n cynnwys cywion.
Erthygl 5(1)		Dogfennau sy'n gorfod bod gyda sypiau o wyau deor a chywion.
Erthygl 5(2)	Erthygl 5(1) o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 617/2008	Gofynion arbennig o ran gwybodaeth sydd i'w darparu o ran dogfennau sy'n gorfod bod gyda sypiau o wyau deor a chywion a fewnforir o drydedd wlad.
Erthygl 6		Cadw cofrestri gan ddeorfeydd.
Erthygl 7	Is-baragraff (h) o'r ail baragraff o Erthygl 1 o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 589/2008	Cyfyngiad ar y defnydd o wyau a dynnwyd o ddeorydd.
Erthygl 8(1)		Ymrwymiad ar ddeorfeydd i ddarparu adroddiadau misol.

SCHEDULE 1

Regulation 5

COMMUNITY PROVISIONS RELATING TO EGGS FOR HATCHING AND CHICKS
CONTRAVENTION OF WHICH IS AN OFFENCE

PART 1

PROVISIONS OF THE SINGLE CMO REGULATION

<i>Column 1</i>	<i>Column 2</i>	<i>Column 3</i>
Relevant provision of the Single CMO Regulation	Provisions to be read with the provisions of the Single CMO Regulation mentioned in column 1	Subject matter
Article 113(3), first sub-paragraph, insofar as it relates to the marketing of eggs for hatching and chicks	Article 116 of, and Part C of Annex XIV to, the Single CMO Regulation and Commission Regulation (EC) No 617/2008	Prohibition on the marketing of eggs for hatching and of chicks except in accordance with the marketing standards laid down in Part C of Annex XIV to the Single CMO Regulation and Commission Regulation (EC) No 617/2008.
Point II(1) of Part C of Annex XIV	Article 3(1) of Commission Regulation (EC) No 617/2008	Marking of eggs for hatching.
Point II(2) of Part C of Annex XIV	Article 3(4) and (5) of Commission Regulation (EC) No 617/2008	Transportation and packing of eggs for hatching.
Point II(3) of Part C of Annex XIV	Article 3(8) of Commission Regulation (EC) No 617/2008	Importation of packages of eggs for hatching from a third country.
